# Ystyriaethau ar gyfer Gwasanaeth Prawf Datganoledig yng Nghymru

## Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i ymgymryd â lleoliad gwaith â thâl ar brosiect ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynnal adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch gwasanaethau prawf datganoledig yn y DU, gan ganolbwyntio’n benodol ar Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf. Defnyddir yr adolygiad fel sail ar gyfer datblygu’r opsiynau ar gyfer cyflenwi gwasanaeth prawf datganoledig yng Nghymru.

Nod y gwaith hwn yw cynorthwyo’r broses o wneud penderfyniadau ym maes polisi Trawsnewid Cyfiawnder a chryfhau’r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer datganoli cyfiawnder. Yn benodol, bydd y prosiect hwn yn cymhwyso’r hyn a ddysgir o fodelau eraill o wasanaethau prawf datganoledig yng nghyd-destun yr amgylchedd cyfiawnder yng Nghymru i lunio ystyriaethau ar gyfer datganoli’r gwasanaeth prawf yng Nghymru. Mae hyn yn debygol o gynnwys risgiau, heriau, a chyfleoedd allweddol, a hwyluswyr llwyddiant.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio’n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ymchwilio i rychwant amrywiol o allbynnau ymchwil, ac i’w datblygu, a bydd yn cefnogi swyddogion Llywodraeth Cymru yn eu proses ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i roi ei sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, meithrin ei sgiliau generig (fel llunio adroddiadau neu roi cyflwyniadau) ymhellach, a gwella ei wybodaeth am ymchwil y tu allan i’r byd academaidd.

## Y Sefydliad

Llywodraeth Cymru yw’r llywodraeth ddatganoledig i Gymru, ac mae’n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus, a’r amgylchedd yng Nghymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi’i lleoli yn yr adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), sy’n darparu’r gwaith o gasglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a’r cyhoedd, yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth

annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr ym maes polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisi.

## Yr Interniaeth

Bydd yr interniaeth yn cynnig cyfle cyffrous i weithio ochr yn ochr â'r Tîm Trawsnewid Cyfiawnder, sy'n goruchwylio rhaglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru ac sy'n ymgymryd â gwaith polisi ar ddatganoli cyfiawnder. Fel rhan o'r interniaeth, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr. Bydd hefyd yn gyfle i roi sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, meithrin sgiliau generig (fel llunio adroddiadau neu roi cyflwyniadau) ymhellach, yn ogystal â gwella gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a allai gynnwys mentora, cysgodi, cymorth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn cael budd o weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy:

- Fagu profiad a meithrin dealltwriaeth o ymchwil y llywodraeth.
- Cael trosolwg o'r maes polisi cyfiawnder.
- Rhwydweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid o bob rhan o'r maes polisi.
- Meithrin sgiliau trosglwyddadwy wrth gynnal ymchwil, cyflawni prosiectau ac ysgrifennu adroddiadau.

## Y Prosiect

### Ystyriaethau ar gyfer Gwasanaeth Prawf Datganoledig yng Nghymru

### Cefndir y Prosiect

Mae *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, a gafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2022, yn cyflwyno glasbrint cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol datganoli cyfiawnder yng Nghymru.[1] Yn unol ag ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021 i 'fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona a chyfiawnder',[2] mae'r adroddiad yn cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gynllunio tymor hir, gan nodi elfennau craidd system gyfiawnder ddatganoledig ac amlinellu'r diwygiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Cymru. Gan amcanu at y nod hirdymor o ddatganoli deddfwriaethol llawn, mae'r adroddiad yn ystyried pob agwedd ar y system gyfiawnder, gan gynnwys plismona, cyfiawnder gweinyddol, a'r gwasanaeth carchardai a phrawf.

Gan gefnogi datganoli cyfiawnder, mae *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* yn defnyddio corff cynyddol o dystiolaeth, sydd wedi tyfu'n gyflym ers i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (y Comisiwn Silk) gael ei sefydlu yn 2011 a'i adroddiad, *Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru*[3], gael ei gyhoeddi yn 2014. Yn ystod Rhan II o'i adolygiad i bwerau anariannol

[1] Llywodraeth Cymru, *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* (2022).
[2] Llywodraeth Cymru, *Rhaglen Lywodraethu Diweddariad* (2021).
[3] Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, *Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru* (2014).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, daeth y Comisiwn Silk o hyd i dystiolaeth i gefnogi datganoli pwerau plismona a chyfiawnder i Gymru, gan nodi'r manteision ar gyfer atebolrwydd, hygyrchedd ac o ran sicrhau gwell cysondeb rhwng polisïau a gwasanaethau. Cafwyd nifer o argymhellion gan y Comisiwn a oedd wedi'u seilio ar y canfyddiadau hyn, gan gynnwys y rhai canlynol mewn perthynas â'r gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai:

i. Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gynnal astudiaeth ar y cyd ar ddichonolrwydd gweithredu gwasanaeth prawf datganoledig.

ii. Dylid sefydlu mecanwaith ffurfiol i alluogi Gweinidogion Cymru gyfrannu at ddatblygu polisïau ym maes rheoli oedolion sy'n troseddu.

Yn 2017, dair blynedd yn dilyn cyhoeddi Adroddiad y Comisiwn Silk, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (y Comisiwn Thomas) i adolygu gweithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru a phennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer ei dyfodol, gyda'r bwriad o:

i. hyrwyddo gwell canlyniadau o ran mynediad at gyfiawnder, gostwng nifer yr achosion o droseddu a hybu'r broses adsefydlu.

ii. sicrhau bod y trefniadau awdurdodaethol ac addysg gyfreithiol yn adlewyrchu ac yn edrych ar swyddogaeth cyfiawnder yn llywodraethiant a ffyniant Cymru yn ogystal â materion neilltuol sy'n codi yng Nghymru.

iii. hyrwyddo cadernid a chynaliadwyedd sector gwasanaethau cyfreithiol Cymru a sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i ffyniant Cymru.[4]

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2019, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*. Yn yr adroddiad, daethpwyd i'r casgliad *'nad yw'r system bresennol yn diwallu anghenion pobl Cymru'* a galwyd am ddiwygio'r system gyfiawnder a'r drefn ddatganoli bresennol yn sylweddol.[5] Unwaith eto, cafodd y gwasanaeth prawf sylw helaeth drwy gydol yr adolygiad, a gwnaed argymhellion penodol y dylid cymhwyso egwyddorion Adroddiad Blynyddol 2018 y Prif Gomisiynydd i Wasanaeth Prawf Cenedlaethol newydd i Gymru ac y dylai'r canlyniadau gael eu monitro a'u cyhoeddi'n rheolaidd.

O ganlyniad i'r pandemig Covid-19, bu oedi o ddwy flynedd cyn i *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* gael ei gyhoeddi yn 2022. Mae'r adroddiad yn ymateb i ganfyddiadau'r Comisiwn Thomas, gan fynd i'r afael â'i argymhellion a nodi'r rhaglen waith sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder. At hynny, mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio wedi'u darparu'n effeithiol yng Nghymru a Lloegr yn ystod y pandemig fel tystiolaeth o system gyfiawnder ddatganoledig ar waith. Mae'n nodi ymhellach fod digido gwasanaethau a gwelliannau mewn trefniadau cydweithio wedi lleihau'r rhwystrau a wynebwyd yn flaenorol wrth weithredu gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru.

Ers cyhoeddi *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, mae'r sylfaen lenyddiaeth ar gyfiawnder yng Nghymru wedi parhau i dyfu, ac mae'r pwyslais erbyn hyn ar feysydd posibl i'w datganoli yn y tymor byr. O ganlyniad, gwelwyd pwyslais o'r newydd ar system y gwasanaeth prawf, ac

---

[4] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cylch Gorchwyl* (2017).

[5] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru (2019).*

argymhellodd Comisiwn y Blaid Lafur ar Ddyfodol y DU (y Comisiwn Brown)[6] a'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru[7], ill dau, y dylid ei datganoli yn fuan cyn unrhyw faes arall o'r system gyfiawnder.

Mae datganoli'r gwasanaeth prawf hefyd wedi denu sylw ymhlith cylchoedd academaidd. Arweiniodd sgyrsiau rhwng Llywodraeth Cymru a Chanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru at gyhoeddi *Tuag at Wasanaeth Prawf Datganoledig yng Nghymru* yn 2023.[8] Mae'r cyhoeddiad yn cynnwys tri phapur, pob un yn ystyried y materion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth prawf datganoledig, ac ymarferoldeb gwasanaeth o'r fath, o dan y themâu penodol 'gwerthoedd ac egwyddorion', 'arfer effeithiol', a 'llywodraethu a phartneriaethau'. Gan dynnu ar arbenigedd academaidd ac ymarferwyr, mae'r papurau yn datblygu atebion cysyniadol i'r materion allweddol sy'n cael eu hwynebu wrth weithredu ac yn galw am ymgysylltu ymhellach â'r pwnc, yn enwedig mewn meysydd nad oes llawer o ymchwil wedi'i gynnal ynddynt eisoes, fel cyfraddau carcharu yng Nghymru.

Yn fwyaf diweddar, fodd bynnag, lluniodd Llywodraeth Cymru adroddiad dilynol i *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* – ym mis Chwefror 2024 – a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn y ddwy flynedd ers cyhoeddi'r ddogfen honno.[9] Ochr yn ochr â phlismona a chyfiawnder ieuenctid, mae datganoli'r gwasanaeth prawf yn faes ag iddo bwyslais allweddol, ac mae'r gwaith a wnaed yn y maes hyd yma yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn. Yn ogystal â gwaith Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru a'r Comisiwn Annibynnol, mae'r adroddiad hefyd yn adlewyrchu darn ychwanegol o ymchwil a gomisiynwyd yn 2023 drwy Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bydd yr ymchwil hon yn adeiladu ar farn arbenigwyr ac ar y data presennol ar droseddu a chyfiawnder i ddatblygu'r opsiynau ar gyfer datganoli'r gwasanaeth prawf yng Nghymru. Mae model Manceinion Fwyaf yn un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, o bosibl fel cam dros dro tuag at ddatganoli deddfwriaethol llawnach mewn perthynas â'r gwasanaeth prawf. Bydd y prosiect hwn yn gallu adeiladu ar ganfyddiadau gwaith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ystyriaethau ar gyfer Gwasanaeth Prawf Datganoledig yng Nghymru

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth bresennol ar ddatganoli'r gwasanaeth prawf drwy gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch modelau tebyg a weithredwyd cyn hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar fodel Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf. Bydd y prosiect yn cynnwys:

- Cynnal dadansoddiad eilaidd o'r setiau data, y cyhoeddiadau academaidd, yr adroddiadau monitro, a'r llenyddiaeth lwyd berthnasol sydd ar gael.

---

[6] Commission on the UK's Future, *A New Britain: Renewing our Democracy and Rebuilding our Economy (2022).*
[7] Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, *Adroddiad Terfynol: Ionawr 2024* (2024).
[8] Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, *Tuag at Wasanaeth Prawf Datganoledig yng Nghymru* (2023).
[9] Llywodraeth Cymru, *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru: Adroddiad Cynnydd 2024* (2024).

- Casglu a dadansoddi data sylfaenol gan swyddogion dethol y gwasanaeth prawf a/neu gan arbenigwyr pwnc.

Bydd yr ymchwil yn cymhwyso'r hyn a ddysgir o fodelau o wasanaethau prawf datganoledig eraill yng nghyd-destun yr amgylchedd cyfiawnder yng Nghymru i lunio ystyriaethau ar gyfer gwasanaeth prawf datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn debygol o gynnwys risgiau, heriau, a chyfleoedd allweddol, a hwyluswyr llwyddiant.

Bydd yr ymgeisydd yn cael cefnogaeth gan swyddogion polisi a thimau dadansoddi ar draws Llywodraeth Cymru, a bydd cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach drwy gydol cyfnod y prosiect.

**Canlyniadau disgwyliedig y prosiect:**

- Cyhoeddi adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.
- Llunio gwybodaeth friffio ysgrifenedig ar gyfer Gweinidogion a swyddogion gan amlinellu canfyddiadau allweddol y dadansoddiad.
- Rhoi cyflwyniad i gydweithwyr sy'n gweithio yn y maes dadansoddi a swyddogion polisi ar ganfyddiadau'r prosiect.

### Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o chwe mis. Bydd prosiect PhD y myfyriwr yn cael ei oedi dros dro gan ei sefydliad cartref yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y myfyriwr yn cael tâl sy'n gyfwerth â'r ariantal a delir yn arferol i'r myfyriwr yn ystod yr interniaeth. Gellir trefnu amser i ffwrdd ar gyfer ymrwymiadau PhD presennol y myfyriwr sy'n ychwanegol at bolisïau absenoldeb arferol drwy drafod â'r rheolwr llinell, ee cyfarfodydd grwpiau ymchwil a chyflwyniadau mewn cynadleddau. Mae myfyrwyr rhan-amser yn cael eu hannog i wneud cais.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â threfniant gweithio hybrid rhwng y cartref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod yr interniaeth. Gall hyn newid, gan ddibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau gweithio yn cael eu trafod ag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o chwe mis fel trefniant llawnamser, neu'r hyn sy'n gyfwerth â hynny fel trefniant rhan-amser. I fyfyrwyr sydd wedi cofrestru fel myfyrwyr rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael ar sail ran-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yn ystod yr wythnos waith). Byddai angen i'r ymgeisydd llwyddiannus drafod trefniant o'r fath â Llywodraeth Cymru. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, dylech nodi'r oriau gweithio a ffefrir ar y ffurflen gais.

## Manyleb y myfyriwr

Rhaid i'r myfyriwr feddu ar y canlynol:

- Profiad o ymgymryd â dadansoddiadau desg – adolygu, strwythuro a chrynhoi gwybodaeth o amryfal ddogfennau.

- Profiad o gasglu a dadansoddi data drwy ddulliau cymysg, gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol i ddod i gasgliadau ystyrlon.
- Profiad o gynnal ymchwil sylfaenol ansoddol – yn ddelfrydol ar ffurf cyfweliadau lled-strwythuredig.
- Profiad o gyflawni prosiectau ymchwil cryno, o ansawdd yn unol ag amserlen benodol.

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Mis Awst 2024 (yr union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd, gan ddibynnu ar amgylchiadau yr unigolyn.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd fel arfer. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau YGGCC. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Carole Baker yn YGGCC ar: enquiries@wgsss.ac.uk

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n gymwys i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys llenwi ffurflen gais gwiriad y Safon Ddiogelwch Sylfaenol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch at ddiben fetio diogelwch.

Yn unol â'r broses hon, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno yn bersonol dair ffurf wreiddiol o ddogfennau adnabod. Dylai un o'r rhain gynnwys ffotograff (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos cyfeiriad presennol yr ymgeisydd, a dylai un ddogfen fod yn un o'r canlynol: bil cyfleustodau, tystysgrif geni, ffurflen P45 neu P60.

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y swydd neu'r broses ymgeisio at Merisha Weeks (merisha.weeks@llyw.cymru)